## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi unigolion i reoli ymataliaeth. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda strategaethau i hybu a rheoli ymataliaeth, fel trefn toiledu'r unigolyn, adnoddau a'r defnydd o gymhorthion ymataliaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am drefniadau toiledu, iechyd y bledren a’r coluddyn, a’r cymorth sydd ei angen ar unigolion i reoli ymataliaeth
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi a chytuno ar strategaethau i hybu a rheoli ymataliaeth yn unol â dewisiadau, anghenion, a chynllun gofal neu gymorth unigolion
3. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i ddewis, cael mynediad a defnyddio cyfleusterau toiled
4. sicrhau bod dulliau atal a rheoli heintiau, a chyfarpar diogelu personol, yn cael eu defnyddio
5. cynorthwyo unigolion i gasglu’r cymhorthion neu’r adnoddau sy’n ofynnol a’u rhoi fel bod modd cael gafael arnynt
6. gwneud yn siŵr bod unigolion yn gallu galw am gymorth
7. cefnogi annibyniaeth unigolion i sicrhau hylendid personol ar ôl defnyddio’r cyfleusterau toiled
8. cefnogi annibyniaeth unigolion i ddefnyddio unrhyw gymhorthion neu adnoddau
9. cefnogi unigolion i fonitro iechyd a gweithred y bledren a’r coluddyn
10. gwneud yn siŵr bod gwastraff y corff yn cael ei glirio a’i waredu’n ddiogel
11. gwneud yn siŵr bod cymhorthion neu adnoddau sydd wedi cael eu defnyddio yn cael eu gwaredu neu eu glanhau a'u storio
12. gwneud yn siŵr bod y cyfleusterau toiled yn cael eu gadael yn lân ac yn barod i'w defnyddio y tro nesaf
13. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i fonitro a nodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen i hybu a rheoli ymataliaeth
14. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i reoli ymataliaeth
15. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau i gefnogi unigolion i reoli ymataliaeth, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am gefnogi â threfn toiledu ac ymataliaeth unigolyn, a'i hadolygu
2. effeithiau cyflyrau meddygol a meddyginiaeth ar iechyd y bledren a'r coluddyn, trefn toiledu ac ymataliaeth
3. effeithiau deiet a symudedd ar iechyd y bledren a'r coluddyn, trefn toiledu ac ymataliaeth
4. sut y gall yr adeg o'r dydd effeithio ar weithred y bledren a'r coluddyn, a'r effaith ar y drefn toiledu ac ymataliaeth
5. arwyddion a symptomau haint y llwybr wrinol a sut y gellir ei drin
6. arwyddion a symptomau rhwymedd a sut y gellir ei drin
7. ffyrdd o fonitro, mesur, cofnodi a rhoi gwybod am iechyd a gweithred y bledren a'r coluddyn, a pham fod hyn yn bwysig
8. pwysigrwydd caniatáu preifatrwydd a pheidio â rhuthro unigolion pan fyddant yn defnyddio'r cyfleusterau toiled
9. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gynorthwyo unigolion i reoli ymataliaeth
10. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth hybu a rheoli ymataliaeth
11. y gwahanol opsiynau o ran cyfleusterau toiled sydd ar gael i unigolion a'r mathau o gyfarpar a ddefnyddir i addasu'r cyfleusterau hynny
12. yr ystod a'r defnydd o gymhorthion ymataliaeth a phwysigrwydd arferion cynaliadwy
13. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi unigolion i reoli ymataliaeth
14. y gwahanol lefelau o gymorth sydd ei angen ar unigolion i reoli trefniadau toiledu ac ymataliaeth
15. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar drefniadau toiledu a sut mae ymataliaeth yn cael ei reoli
16. dylanwad diwylliant a chefndir ar drefniadau toiledu a sut mae ymataliaeth yn cael ei reoli
17. yr ystod o opsiynau hylendid personol sydd ar gael i gynorthwyo unigolion ar ôl defnyddio'r cyfleusterau toiled
18. effaith y dewis o ran dillad o ran pa mor hawdd ydy defnyddio'r cyfleusterau toiled a chymhorthion ymataliaeth

19. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau unigolion effeithio ar hybu a rheoli ymataliaeth
20. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gynorthwyo unigolion i reoli ymataliaeth
21. sut mae trin a gwaredu gwastraff y corff, adnoddau a ddefnyddir ar gyfer hylendid personol, a chymhorthion ymataliaeth sydd wedi cael eu defnyddio, mewn ffordd ddiogel
22. sut mae sicrhau hylendid dwylo effeithiol a phwysigrwydd defnyddio cyfarpar diogelu personol
23. pwysigrwydd gwneud yn siŵr bod y cyfleusterau toiled yn cael eu gadael yn lân ac yn barod i'w defnyddio y tro nesaf
24. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion i reoli ymataliaeth
25. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion i reoli ymataliaeth
26. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i reoli ymataliaeth
27. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi gyda threfniadau toiledu ac ymataliaeth unigolion
28. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gynorthwyo unigolion i reoli ymataliaeth, a sut i fynd i'r afael â hyn
29. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion i reoli ymataliaeth

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi unigolion i reoli ymataliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD211 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Ymataliaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |